**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

**National Assembly for Wales**
Petitions Committee



Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Medi 2016

Annwyl Dai

**Deiseb P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru**

Yn ei gyfarfod olaf ar 8 Mawrth 2016, rhoddodd y Pwyllgor Deisebau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad ystyriaeth i'r ddeiseb a ganlyn a gyflwynwyd gan y Muscular Dystrophy Campaign:

*Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Byrddau Iechyd yn gweithredu'r buddsoddiad a gynigir yn Nogfen Weledigaeth Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru i wella gwasanaethau niwrogyhyrol arbenigol yng Nghymru.*

***Gwybodaeth ychwanegol:***
*Mae Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru'n argymell y dylid blaenoriaethu'r datblygiadau canlynol: 1. Cynyddu nifer y Cynghorwyr Gofal Teulu a lefel y gefnogaeth. 2. Ffisiotherapyddion niwrogyhyrol arbenigol ar gyfer oedolion. 3. Penodi ymgynghorydd anhwylderau niwrogyhyrol ar gyfer oedolion. 4. Cynyddu seicoleg glinigol. 5. Cyllideb offer at bryniannau mân a threfniadau lesio.*

Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd yr Aelodau i ofyn i'r Pwyllgor Iechyd newydd a fyddai'n ystyried cynnwys y mater hwn ar ei flaenraglen waith ar gyfer y Pumed

Cynulliad.  Fel y Cadeirydd newydd, rwyf nawr yn bwrw ymlaen â'r cais hwn yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y Pwyllgor blaenorol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb trwy e-bost at dîm clercio'r Pwyllgor yn *SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru*

Yn gywir



Mike Hedges AC
Cadeirydd